Cais Llwyddiannus

Pan fyddwch chi'n derbyn eich cytundeb gohirio taliadau rhaid i chi geisio cyngor cyfreithiol / ariannol annibynnol cyn ei lofnodi.

Dylid dychwelyd y cytundeb wedi'i gwblhau at y Cyngor a byddwch chi'n derbyn llythyr yn cadarnhau popeth pan fydd eich cytundeb yn barod.

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus yna rhoddir gwybod yn ysgrifenedig i chi neu eich cynrychiolydd pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw.

Os ydych chi'n anghytuno â'r penderfyniad, mae gennych hawl i apelio. Am ragor o wybodaeth ffoniwch: Cyllid Gofal Cymdeithasol ar 01437 764551.

Asedau cyfalaf:

Bydd y Cyngor yn trefnu i'ch eiddo gael ei brisio ac ar ôl i hynny ddigwydd byddwn ni'n anfon llythyr atoch yn amlinellu telerau'r cytundeb. Bydd y llythyr yn dangos eich taliadau wythnosol a aseswyd.

Beth os nad ydyw i eisiau Gohirio Taliad?

Eiddo y gellir ei asesu

Os ydych chi wedi cael cynnig Cytundeb Gohirio Taliad, ond dydych chi ddim yn dymuno'i gael, ac ni allwch dalu am ffioedd y cartref gofal, bydd Adran 71 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn weithredol.

Bydd y Cyngor yn trefnu fod Taliad Cyfreithiol yn cael ei roi yn erbyn yr eiddo, a bydd hyn yn gwarantu'r ddyled a fydd yn ddyledus i'r Cyngor pan werthir yr eiddo. Os yw'r ddyled yn dal i fodoli ar ôl i chi farw, bydd taliadau llog yn ddyledus o'r 56fed diwrnod ar ôl i chi farw.

Beth os ydw i eisoes yn byw mewn gofal preswyl?

Os ydych chi eisoes wedi symud i ofal preswyl, ond mai dim ond nawr yr ydych chi'n clywed am y Cynllun Gohirio Taliad, fe allwch chi fod yn gymwys o hyd. I ddysgu mwy, cysylltwch â'r swyddfa isod.

Sut alla i ddysgu mwy am y cynllun?

I ddysgu mwy am y cynllun, cysylltwch â:

Tîm Taliadau ac Asesiadau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus
Cyngor Sir Penfro
Hwlffordd
SA61 1TP

01437 764551

Os hoffech chi gael y daflen wybodaeth hon mewn print bras, Braille, Easyread neu ar ffurf sain, ffoniwch 01437 764551 os gwelwch yn dda.

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Cynllun Gohirio Taliadau

Beth yw'r cynllun gohirio taliadau?

Os ydych chi'n symud i gartref preswyl neu gartref nyrsio, gallwch wneud cais i'r awdurdod lleol i dalu eich ffioedd cartref gofal hyd nes y byddwch chi'n gallu:

- Cael mynediad i / rhyddhau arian sydd ynghlwm yn eich eiddo.
- Cael mynediad i asedau cyfalaf e.e. arian a ddelir mewn ymddiriedolaethau, cyfranddaliadau ac ati
- Cael mynediad i rai asedau cyfalaf nad oes modd i chi gael mynediad iddynt ar hyn o bryd.

Fe all eich bod chi'n gymwys os ydych chi'n berchen ar eiddo neu asedau cyfalaf, ond eich bod chi'n dewis peidio â defnyddio'r cyfalaf i gwrdd â chost eich gofal. Rhaid i unrhyw arian a delir gan yr awdurdod lleol mewn amgylchiadau fel hyn gael ei ad-dalu.

Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn talu am gostau eich gofal preswyl ac os ydych chi'n berchen ar eiddo, trefnir fod y benthyciad yn cael ei warantu yn erbyn eich eiddo, hyd nes i hwnnw gael ei werthu, neu eich bod chi'n marw. Bryd hynny, ad-delir y ddyled i'r Cyngor. Amlinellir hyn i gyd mewn cytundeb gyda Chyngor Sir Penfro, y bydd angen i chi, neu eich cynrychiolydd ariannol, ei lofnodi.

Ar gyfer pwy mae'r cynllun hwn?

Mae'n addas i chi os ydych chi'n symud i ofal preswyl neu ofal nyrsio yn barhaus, o dan gynllun a gyllidir gan yr awdurdod lleol a:

- Does gennych chi ddim mynediad i'ch ased cyfalaf e.e. cartref, tir, buddsoddiad ac ati
- Nid ydych chi'n dymuno gwerthu eich eiddo.
- Nid oes modd i chi werthu eich eiddo'n ddigon cyflym i dalu am eich gofal.
- Nid oes modd i chi gael mynediad i arian er mwyn talu costau llawn eich gofal.

Pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynllun?

I ymuno â'r cynllun rhaid i chi fodloni **pob un** o'r amodau canlynol: (Noder: nid yw hon yn rhestr gyflawn.)

- Rydych chi wedi cael eich asesu gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion a dywedir bod angen gofal preswyl neu ofal nyrsio parhaol arnoch.
- Rydych chi'n gymwys i dderbyn cyllid gan y Cyngor.
- Mae gennych ddiddordeb manteisiol mewn ased cyfalaf sy'n werth digon i gwrdd â'r taliad a aseswyd..
- Chi sydd â'r flaenoriaeth gyntaf yn yr eiddo a aseswyd.

Byddai angen i'r rheiny nad oes ganddyn nhw'r gallu i wneud penderfyniad feddu ar:

- Atwrneiaeth – sy'n gallu gweithredu ar eu rhan yng nghyd-destun materion ariannol.
- Dirprwy – sy'n gallu gweithredu ar eu rhan yng nghyd-destun materion ariannol.

Sut mae'r cynllun yn gweithio?

Os ydych chi'n berchen ar eiddo y gellir ei asesu.

Os ydych chi wedi cael eich asesu ac y byddwch chi'n derbyn gofal a chefnogaeth y codir amdano, byddwn ni'n cynnig asesiad ariannol i chi i benderfynu faint fydd angen i chi ei dalu tuag at eich gofal.

Anwybyddir gwerth eiddo cymwys wrth gyfrifo'r asesiad ariannol dros 12 wythnos gyntaf y lleoliad mewn cartref gofal. Bydd angen i chi wneud cyfraniad wedi'i asesi yn ystod y cyfnod 12 wythnos.

O'r 13eg wythnos cynhwysir eich eiddo yn yr asesiad ariannol ac fe all y swm y gofynnir i chi ei dalu bob wythnos fod yn uwch na'ch incwm. Bydd gennych gyfle i ohirio pob rhan neu ran o'r taliad tan adeg diweddarach.

Bydd y Cyngor hefyd yn trefnu i rywun cymwys brisio eich eiddo.

Er mwyn gwneud hyn bydd angen i chi neu eich cynrychiolydd ariannol gytuno bod y Cyngor yn gallu gosod blaenoriaeth ariannol ar yr eiddo. Yn gyfnewid, bydd y Cyngor yn talu gweddill eich costau gofal hyd at swm a gytunwyd a fyddai'n cael ei dalu pan werthir yr eiddo.

Gellir defnyddio trefniant gohirio taliad hefyd i dalu am lety mwy drud, a gelwir hyn yn 'Gyfraniadau Costau Ychwanegol'.

Os oes gennych chi asedau cyfalaf eraill y gellir eu hasesu (Ac eithrio eiddo asesiadwy)

Os oes gennych chi fuddsoddiadau eraill nad oes modd i chi / nad ydych chi'n dymuno cael mynediad iddynt, gallwch chi wneud cytundeb gohirio taliadau. Gallech hefyd ddefnyddio'r cynllun i dalu am lety mwy drud, a gelwir hyn yn 'Gyfraniadau Costau Ychwanegol'.

Os oes angen i chi dalu Cyfraniad Costau Ychwanegol, rhaid i'r arian gael ei ad-dalu:

- Pan fydd rhai newidiadau'n digwydd i'ch amgylchiadau ariannol.
- Pan fydd yr eiddo'n cael ei werthu.
- Pan ddaw'r cytundeb i ben gan y parti e.e. y Cyngor, chi neu eich cynrychiolydd.
- O fewn 56 diwrnod ar ôl i chi farw.

Codir log os nad yw'r ddyled yn cael ei had-dalu ar ddiwedd y cyfnod a gytunwyd.

Sut ydw i'n gwneud cais am y Cynllun Gohirio Taliadau?

Pan fyddwch chi'n symud i gartref preswyl neu nyrsio yn barhaol ar ôl derbyn asesiad gofal cymdeithasol, bydd angen cwblhau ffurflen asesiad ariannol fel rhan o'r broses fynediad.

Pan fydd y ffurflen hon wedi cael ei phrosesu, rhoddir gwybod i chi neu eich cynrychiolydd sut i wneud cais am ohirio taliadau. Byddwch chi hefyd yn derbyn cadarnhad o gost y lleoliad preswyl neu nyrsio.

Ystyrir eich cais yn unol â meini prawf deddfwriaethol ac os ydych chi'n llwyddiannus, anfonir cytundeb gohirio taliadau atoch chi neu eich cynrychiolydd.